

Gwydr eilaidd

Y dewis amgen sy'n rhatach na gwydr dwbl

O'r holl wres a gollir o'r tŷ arferol, caiff tua 10% o'r gwres ei golli drwy'r ffenestri. Mae 15% pellach o ganlyniad i ddrafftiau. Gall gwydr eilaidd fod yn fodd cost effeithiol o leihau faint o wres a gollir a gwneud eich cartref yn fwy cyfforddus

Nid yw rhoi gwydr dwbl cyfoes yn lle hen ffenestri gwydr sengl yn opsiwn mewn rhai cartrefi. Gallai hyn fod oherwydd y gost, neu oherwydd bod y tŷ wedi ei restru neu mewn ardal gadwraeth ble mae'n rhaid cadw nodweddion gwreiddiol fel ffenestri codi.

Fodd bynnag mae'n dal yn bosib lleihau drafftiau a faint o wres a gollir drwy ffenestri gan ddefnyddio amrywiol ddulliau o osod gwydr eilaidd. Gellir prynu rhai mathau o wydr eilaidd o siop a'u gosod eich hunain; mae eraill yn fwy arbenigol. Nid yw rhai enghreifftiau o wydr eilradd a restrir isod yn cael eu caniatáu mewn adeiladau rhestredig, felly gwiriwch yn gyntaf

Gwydr eilaidd ffilm tryloyw

Y ffurf symlaf a rhataf o wydr eilaidd yw ffilm plastig tryloyw tenau yr ydych yn ei osod eich hun gan ddefnyddio stribedi o dâp sy'n ludiog ar y ddwy ochr o amgylch ffrâm y ffenest. Mae'r defnydd yn edrych fel 'cling-film' ond os caiff ei osod yn gywir mae bron yn anweledig. I'w osod, rhowch y tâp ar ffrâm y ffenest, torrwyd y ffilm i'r maint cywir a gludwch ef yn ofalus at y tâp nes mae'n creu sêl. Yna chwythwch aer poeth o sychwr gwallt ar y ffilm nes ei fod wedi ei dynnu'n dynn, a thorrwch unrhyw ffilm ychwanegol oddi ar yr ochrau.

Mae digon o ffilm i orchuddio ffenest fawr yn costio £10-15 ac ar gael o siopau DIY. Mae'r ffilm yn hawdd i'w dynnu i ffwrdd, er y gall wneud difrod i baent.




Bydd cadwr aer cynnes yn y tŷ yn golygu eich bod yn arbed arian ar wresogi. Gweler trosodd am syniadau arbed ynni...



Mae ffenestrin gadael golau i mewn, ond yn gadael cynhesrwydd allan, hefyd. Mae gwydr eilaidd yn helpu i gadw aer cynnes yn y cartref


Gwydr eilaidd dros dro

Nesaf o safbwynt cost, cymhlethdod a sefydlogrwydd mae systemau lle gosodir llen o ddeunydd tryloyw fel plastig clir acrylig ar ffrâm y ffenestri, fel y gellir eu rhoi i fyny neu eu tynnu lawr yn unol â'r tymhorau. Mae rhai systemau'n defnyddio stribedi magnet i atodi'r gwydr eilaidd i'r ffrâm, mae eraill yn defnyddio deunydd tebyg i Felcro. Dull poblogaidd yw 'clip and stick' lle defnyddir ymylwaith uPVC i glipio'r panel yn ei le dros ffrâm y ffenest. Gall y mathau hyn o wydr eilaidd leihau sŵn hefyd.



Gwydr eilaidd lled-barhaol

Mae rhai o'r mathau drytach o wydr eilaidd yn lled-barhaol ac yn cael eu rhoi yn eu lle drwy unai eu sgriwio i'w lle neu ddefnyddio adlyn neu lud cryf. Gallant fod o ddeunydd trwm fel gwydr. Ar ffenestri lletach gallant lithro'n agored ar draciau fel y gellir agor y ffenestri fel arfer. Yn gyffredinol, nid yw'r math hwn yn addas ar gyfer DIY.



Mae ffenestri codi yn tueddu i adael aer oer i mewn. Gallwch gael paneli acrylig ysgafn clir i ffitio dros y fframiau gwydr hyn, ond nid ydynt yn gorchuddio'r bylchau ar yr ochrau, ar ben ac ar waelod y ffenestri sy'n gwneud fframiau codi mor ddrafftig.

Tips for lower energy bills



Rhowch ddiwrnod yn yr haul i'ch dillad a rhowch seibiant i'ch peiriant sychu dillad. Mae dillad wedi'u sychu yn yr awyr iach yn teimlo'n wych, ac mae dyddiau sychu yn y gaeaf, hefyd.

Pan fyddwch yn coginio, cadwch ddrws y popty ar gau gymaint ag sydd yn bosib; bob tro byddwch yn ei agor, bydd bron i chwarter y gwres yn dianc.



Mae bwyd yn y popty yn coginio'n gynt pan fydd aer yn cylchdroi'n rhydd, felly peidiwch rhoi ffoil ar y silffoedd.

Peidiwch â gwefruch ffon drwyr nos. Dim ond tair awr sydd ei angen arno - a cheisiwch beidio gadael y teledu ac offer eraill yn gorffwys.



Dysgwch nhw'n ifanc. Anogwch eich plant i ddiffodd teganau trydan a goleuadau nad ydynt yn eu defnyddio. Fe fyddant yn dod i ddeall arbed ynni yn fuan.

Paned o de neu goffi? Dim ond faint o ddŵr yr ydych ei angen ddylech chi ei roi yn y tegell (ond gwnewch yn siŵr eich bod yn gorchuddio'r elfen fetel ar y gwaelod).



Gosodwch atalwyr drafft ar eich drws ffrynt, blwch llythyrau a thwill allwedd, a chaewch eich llenni wrth iddi nosi er mwyn cadw'r gwres i mewn.



Trowch y gwres i lawr l radd. Fyddwch chi ddim yn sylwi ar y newid mewn tymheredd, ond bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'ch bil trydan.



Arhoswch tan fydd gennyh chi lond llwyth cyn rhoi'r peiriant golchi llestri neu'r peiriant golchi i fynd. Mae llwyth llawn yn defnyddio llai o ynni (a dŵr) na dau lwyth hanner llawn.

Gwnewch yn siŵr bod yr holl oleuadaun cael eu diffodd pan fyddwch yn mynd i'r gwely. Os ydych am oleuo ystafell plentyn neu landin, defnyddiwch olau nos watedd isel.



Rhowch eich oergell mewn lle da. Rhywle lle gall aer oer gylchredeg y tu ôl iddo, ond nid yn ymyl popty na rheiddiadur.

Byddwch yn ffrind i'ch rhewgell. Sicrhewch eich bod yn dadrewi'r rhewgell yn aml i'w helpu i redeg yn fwy effeithlon.

Cyfrifiadur newydd?

Mae gliniaduron yn defnyddio tua 85% yn llai o ynni na chyfrifiadur personol pen desg newydd.



Last updated, Feb 2016



3 St Peter's Court
Bedminster Parade
Bristol BS3 4AQ

0117 934 1400
www.cse.org.uk
info@cse.org.uk

Charity: 298740
Founded: 1979

Cynhyrchwyd y daflen hon yn wreiddiol gan y Ganolfan ar gyfer Ynni Cynaliadwy, elusen genedlaethol (rhif 298740) sy'n helpu pobl i newid eu hagwedd a'u harferion o ran ynni

Mae ein Tîm Ynni Cartref yn cynnig cyngor am ddim ar y defnydd o ynni domestig i ddeiliaid tai ym Mryste a Gwlad yr Haf (gan gynnwys awdurdodau unedol Gogledd Gwlad yr Haf a Chaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf).



For energy advice:

Phone **0800 082 2234**

Email home.energy@cse.org.uk

Web www.cse.org.uk/loveyourhome



www.facebook.com/EnergySavingAdvice



www.twitter.com/cse_homeenergy